

Teithwyr Cynorthwyol

Byddwch yn gyfarwydd â'r wybodaeth yn y llyfryn hwn a holl wybodaeth arall sydd arnoch ei hangen ac a rhoddwyd i chi.

Gwisgwch eich gwasgod weledol bob amser. Dylai hon fod â llewys llawn.

Gwisgwch eich bathodyn adnabod bob amser. Sicrhewch ei fod yn ddilys.

Byddwch yn ymwybodol o gerbydau symudol mewn cartrefi ac ysgolion. Peidiwch â gadael i'ch disgyblion adael eich cerbyd cyn bod holl symudiadau wedi dod i ben.

Hysbyswch ar unwaith bob sefyllfa lle'r ydych yn teimlo'n annifyr neu'n anniogel. Gallai hyn gynnwys problemau gyda'ch gyrrwr neu faterion ymddygiadol. Hysbyswch osgoi o drwch blewyn yn ogystal â digwyddiadau a gwrthdrawiadau.

Peidiwch fyth â chodi neu gludo dysgwyr heb i chi asesiad peryglon a hyfforddiant i wneud hynny. Peidiwch â gwthio neu gludo cadeiriau olwynion neu gyfarpar heb gael hyfforddiant i wneud hynny.

Wrth ddychwelyd o'r ysgol, sicrhewch fod oedolyn cyfrifol yno i dderbyn y dysgwr. Os nad oes, gollyngwch unrhyw ddisgyblion eraill cyn dychwelyd. Yna, ffoniwch Cludiant Teithwyr am gyfarwyddiadau. Os digwydd nad oes ateb, os aiff hi i'r pen yn unig, ewch â'r plentyn i orsaf heddlu yn y cerbyd. Hysbyswch hyn i Gludiant Teithwyr a'r ysgol.

Ystyriwch a yw gofynion penodol y dysgwyr sy'n mynd gyda chi'n golygu bod arnoch angen cwrs cymorth cyntaf byr.

Os yw eich gofynion yn golygu bod arnoch angen teclyn dal diferion, sicrhewch fod gennych un bob amser a bod ei ddyddiad yn gywir. Dilynwch hyfforddiant a gawsoch ar ei ddefnyddio. Hysbyswch eich bod wedi'i ddefnyddio a gofynnwch am gael ei ail-lenwi.

Eich gwaith yw gofalu am y dysgwyr dan eich gofal. Mae hyn yn golygu y bydd angen i chi roi'r rhain o flaen unrhyw berthynas waith sydd gennych gyda'ch gyrrwr. Hysbyswch bob amser unrhyw faterion sy'n eich pryderu hyd yn oed os yw hyn ynghylch eich gyrrwr.

Ar ffyrdd prysur neu briffyrdd, sicrhewch fod eich gyrrwr yn aros ar ochr gywir y ffordd fel nad yw'r dysgwyr yn gorfod croesi. Ar ffyrdd prysur, sicrhewch bob amser bod defnyddwyr cadeiriau olwynion yn byrddio draw o'r traffig.

Dylai rhieni bob amser gyfarfod eu tacsis, yn y bore a'r prynhawn. Os bydd angen i chi fynd â'ch dysgwyr i'w cartrefi, dychwelwch i'r tacsii'n ddiymdroi. Gofynnwch i'r gyrrwr barcio lle gallwch weld y cerbyd.

Pan fo angen cludo deunyddiau fflamadwy, sicrhewch y cawsoch yr hyfforddiant gofynnol.

Cofiwch gadarnhau bod unrhyw foddion angenrheidiol gennych chi cyn pob taith. Byddwch yn wylidwrus bob amser.

Peidiwch fyth â rhoi moddion heb fod wedi cael yr hyfforddiant priodol.